**CSF – Proses Panel Dirprwyo Cynllunio**

Proses Swyddogion

Y bwriad yn cynnal Panel pob wythnos, fel arfer pob dydd Iau am tua 9:15am, ac eithrio'r wythnos pan fo Pwyllgor.

1. Rhaid i **Swyddogion Achos** sicrhau bod eu hadroddiadau sydd wedi eu cwblhau a'u gwirio yn cael eu danfon at eu rheolwr llinell erbyn y dydd Gwener cyn y Panel canlynol i sicrhau bod digon o amser i baratoi'r agenda.

2. Mae'r adroddiadau'n cael eu gwirio a'u cytuno ar gyfer eu cynnwys yn yr agenda gan y **Rheolwr Gwasanaethau Datblygu (RhGD) /Rheolwyr Ardal RhD** erbyn y prynhawn dydd Gwener cyn y Panel.

3. Erbyn diwedd y Dydd Gwener cyn pob Panel, bydd y **swyddog achos** yn paratoi sleidiau PowerPoint yn cynnwys y wybodaeth ganlynol ar gyfer pob cais:
    - Nifer fach o ffotograffau o'r safle, cynlluniau allweddol, gan gynnwys cynllun ordnans o'r safle i ddangos y safle yn ei gyd-destun
    - Nifer fach o bwyntiau bwled i egluro prif ystyriaethau allweddol y cynnig

   Dylai'r rhain gael eu cadw yn Sharepoint yn ffeil dyddiad cyfarfod perthnasol y Panel Dirprwyo. **Dylai rheolwyr gael gwybod pan fydd hyn wedi ei wneud.** JPG yw'r fformat gorau i gadw'r dogfennau ar gyfer y cyflwyniad.

4. **Y Rheolwr Ardal / Rheolwr Gwasanaethau RhD** i ddanfon yr adroddiadau a'r agenda trwy e-bost nid yn hwyrach na'r Dydd Llun cyn y Panel at:
    - Tri Aelod y Panel (Phil Murphy, Dale Rooke ac Ann Webb ar hyn o bryd)
    - Yr Aelod Lleol (dim ond pan fo'r Aelod Lleol wedi gofyn i'r cais gael ei gyfeirio at y Panel Dirprwyo);

   Bydd **y Rheolwr Ardal/ Rheolwr Gwasanaethau RhD** yn rhoi gwybod i'r uchod am y canlynol:

   "Bydd Panel Dirprwyo'r Cyngor yn cyfarfod ddydd Iau, xx/xx/202x i ystyried y ceisiadau a nodir ar y ddogfen atodedig.

   Wrth ystyried y cais, bydd y Panel yn ystyried y sylwadau ysgrifenedig sydd wedi eu gwneud eisoes cyn penderfynu a ddylai'r cais gael ei ddirprwyo i swyddogion ei benderfynu, neu a ddylid ei gyfeirio at y Pwyllgor i'w ystyried.

   Hysbysiad o ddyddiad cyfarfod y Panel yn unig yw'r e-bost hwn.

   Gall yr Aelod Lleol ddod i gyfarfod y Panel ond dylai gysylltu â'r Cadeirydd a swyddogion i drefnu hyn."

   **NODER: Bydd achosion gorfodaeth yn cael eu danfon trwy'r Rheolwr Ardal/Rheolwr Gwasanaethau RhD at Aelodau o'r Panel Dirprwyo'n <u>unig</u>.**

5. Unwaith y bydd yr agenda wedi ei chyhoeddi, mae adroddiad y swyddog i'r Panel Dirprwyo'n cael ei gyhoeddi wedyn ar-lein gan y **swyddog achos** fel y gall yr adroddiad gael ei weld trwy Fynediad Cyhoeddus. Rhaid i'r adroddiad gynnwys dyddiad y Panel pan fydd y cais yn cael ei ystyried. Dylai gael ei rhestru (wedi ei labelu) fel 'Adroddiad Swyddog i'r Panel Dirprwyo xx/xx/20xx.'

Y Cyfarfod

Yng Nghyfarfod y Panel (a gynhelir yn bersonol neu’n rhithwir trwy Teams, neu drwy gyfarfod hybrid ble mae rhai’n bresennol yn gorfforol a rhai ar-lein):

i) Bydd y RhGD, y Rheolwr Ardal GD neu, ble mae’n briodol, y swyddog achos, yn cyflwyno pob cais ar yr agenda i’r Panel. Gall Aelodau’r Panel ofyn cwestiynau i'r swyddog er mwyn cael eglurder. Bydd Aelodau’r Panel wedyn yn penderfynu’r cynnig ac yn penderfynu a) y gellir dirprwyo’r cais i swyddogion ei benderfynu yn unol â’r argymhelliad, neu b) y dylid ei gyfeirio at y Pwyllgor Cynllunio i’w benderfynu.

ii) Caiff canlyniadau’r cyfarfodydd eu cadw ar system TG y Tîm RhD.

iii) Trwy ddisgresiwn y Cadeirydd, gall y Panel gytuno i gyfarfod ag ymgeisydd a thrydydd parti ar y safle pan ystyrir bob rhai materion cynllunio’n gofyn am drafodaeth fwy manwl ac uniongyrchol. Bydd hyn, serch hynny, yn eithriad i’r drefn yn hytrach na’r drefn arferol gan y dylai adroddiad a chyflwyniad y swyddog fod yn ddigonol fel arfer i gyflwyno’r materion cynllunio ac i gyrraedd argymhelliad cytbwys. Yn yr amgylchiadau yma, bydd yr ymgeisydd a’r trydydd parti’n cael eu gwahodd i roi eu barn gerbron Aelodau’r Panel ar wahân cyn y bydd Aelodau’r Panel yn trafod y cynnig ac yn gwneud penderfyniad fel nodir yn rhan i) uchod.

AJ 09/01/2025